**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Tachwedd 2019 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | P K Jones |
| E T Kirchner | W G Lewis | W G Thomas |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Sam Pritchard | Cyd-aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant |
| Y Cynghorydd Elliott King | Cyd-aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: P M Black ac L R Jones

---

## 66 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 67 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 68 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

## 69 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 70 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant (y Cynghorwyr Elliott King a Sam Pritchard)

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad ar y prif benawdau ar gyfer portffolio'r Gwasanaethau Plant.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelodau Cabinet, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Comisiynydd Strategol Arweiniol yn canolbwyntio ar y canlynol: -

Dechrau'n Deg
- Mesur perfformiad, llwyddiant, canlyniadau a chymharu ag eraill
- Adolygiadau Comisiynu sydd ar ddod - posibilrwydd yr ystyrir gweithgareddau Dechrau'n Deg a'r gallu i gyflwyno agweddau ar y rhaglen mewn ardaloedd eraill yn Abertawe e.e. o ran cefnogaeth magu plant
- Cydweithio ar draws y cyngor - cysylltiadau ag addysg a throsglwyddo i'r cyfnod sylfaen, a'r ddarpariaeth tai newydd ym Mhenderi a'u cynnwys yn Dechrau'n Deg
- Mae'r cynnig ar gael i blant nad ydynt efallai'n byw yn ardaloedd codau post Dechrau'n Deg

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Hybu a datblygu parchu hawliau ac eco-bwyllgorau/eco-ymwybyddiaeth mewn ysgolion
- Cysylltiadau â hawliau byd-eang, llais y disgybl a'r 'Sgyrsiau Mawr' a drefnir gan y cyngor
- Effeithiau ar ymddygiad disgyblion - cadarnhaol a negyddol

Tlodi Plant
- Effaith Credyd Cynhwysol - hyrwyddo hyn a rhoi cyngor
- Defnyddio Cronfa Waddol Cymunedau'n Gyntaf i gefnogi teuluoedd a'u cynghori
- Swyddogion Cynnwys - darparu cyngor ar gynhwysiad ariannol
- Dewisiadau gwario
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol - cyfradd briodol

Diogelu
- Sylw yn y wasg yn ddiweddar i broblemau mewn cartrefi gofal yn y sector preifat
- Arolygiaeth Gofal Cymru - arolygiadau ac arweiniad
- Lleoli Plant - ystyried yr adroddiad arolygu, adolygiadau rheolaidd a chynnig eiriolwr annibynnol
- Ariannu lleoliadau ac addysg yn y sir
- Darpariaeth addysg fewnol cartrefi gofal

Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

- Cynnydd diweddar yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET
- Olrhain pobl ifanc sy'n NEET â'r cydberthyniad â Dechrau'n Deg
- Adolygiadau Comisiynu sydd ar ddod a fyddai'n cynnwys ffocws ar bobl ifanc NEET
- Gwaith parhaus ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r sawl sy'n gadael gofal
- Anawsterau mewn perthynas â gwybodaeth am berfformiad a'i chymharu ag eraill

Cyfleoedd Chwarae

- Cynnig y Tîm Chwarae
- Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac argaeledd yr adroddiad diweddaraf
- Ardaloedd lle nad oedd ardal chwarae/cynnig chwarae
- Darpariaeth therapi chwarae yn Abertawe

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

- Monitro gwella'r gwasanaeth
- Problemau parhaus o ran cael mynediad at y gwasanaeth - gweithio tuag at fodel un drws ffrynt

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

- Cynnydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ers iddo ddod yn ôl yn fewnol
- Trawsnewid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Cyfleoedd i integreiddio â gwasanaethau eraill
- Cyfradd aildroseddu/cynnig sydd ar gael i'r sawl sy'n aildroseddu

Cyfrifoldebau portffolio

- Eglurder ar gwmpas ac ystyr y pwnc portffolio 'Cyfleoedd i Bobl Ifanc'

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 71 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, Cynullydd)

Darparodd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams, Cynullydd Panel Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y diweddaraf am waith y panel hyd yn hyn.

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, tynnodd sylw at y gwaith cyfredol o ran monitro CAMHS yn ogystal â phryder ynghylch Asesiadau Rheini sy'n Ofalwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant. Ychwanegodd fod y panel wedi siarad yn uniongyrchol â rheini sy'n ofalwyr am eu profiadau. Rhoddodd y Cynullydd eglurhad ar y matrics Signs of Safety a'r Arolwg Bright Spots a drafodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y panel.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 72 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am 'Aelodaeth y Paneli a’r Gweithgorau Craffu. Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, hysbyswyd y pwyllgor gan Arweinydd y Tîm Craffu fod Katrina Guntrip wedi camu i lawr o'i rôl fel cyfetholwr ar Banel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion.

**Penderfynwyd** tynnu'r Cynghorydd Wendy Fitzgerald o'r Panel Ymchwiliad Caffael

## 73 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am 'Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol'.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr Adroddiadau Craffu drafft a'u cyflwyno i'r cyngor.

## 74 Rhaglen Waith Craffu ar Gyfer 2019/20.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2019/20.

Amlygodd bod cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a drefnwyd ar gyfer 9 Rhagfyr 2019 wedi'i ganslo ac y byddai'r sesiwn Holi ac Ateb gydag Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda yn cael ei aildrefnu.

Trafododd y pwyllgor bosibilrwydd cynnal sesiwn graffu cyn penderfynu ar yr adroddiad cabinet sydd ar ddod ar Safleoedd Blaendraeth a restrir ym Mlaengynllun y Cabinet.

**Penderfynwyd:** -
1) y dylid nodi'r adroddiad;
2) y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn ystyried opsiynau mewn perthynas â chraffu ar yr adroddiad Cabinet ar y safleoedd blaendraeth.

## 75 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu, er gwybodaeth.

Nodwyd adroddiad y llythyrau craffu.

## 76 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 77 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.45 pm

**Cadeirydd**